# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Cymhwyso'r Rhan a'i heffaith*

### 3 Deddfwriaeth y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi

(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i—

(a) y Ddeddf hon;

(b) Deddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn neu ar ôl y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn;

(c) is-offerynnau Cymreig a wneir ar y diwrnod hwnnw neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Ystyr "is-offeryn Cymreig" yw offeryn (pa un a yw'r offeryn hwnnw yn offeryn statudol ai peidio) nad yw ond yn cynnwys un neu ddau o'r canlynol—

(a) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, pa un ai gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall;

(b) is-ddeddfwriaeth—

(i) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir,

(ii) nas gwneir ond gan Weinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)), a

(iii) nad yw ond yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae cyfeiriadau yng ngweddill y Rhan hon at Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (oni ddarperir fel arall) yn gyfeiriadau at Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi neu iddo yn rhinwedd is-adran (1).

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 4 Effaith darpariaethau'r Rhan hon

(1) Pan fo'r Rhan hon yn gymwys i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn cael effaith mewn perthynas â'r Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw, ac eithrio i'r graddau—

(a) y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu

(b) y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

(2) Nid yw'r eithriad yn is-adran (1) yn gymwys i adran 5 (statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog).

(3) Nid yw paragraff (b) o'r eithriad hwnnw yn gymwys i—

(a) adran 10 (cyfeiriadau at amser o'r dydd);

(b) adran 28 (cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron);

(c) adran 33 (nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes).